**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

# ADOLYGIAD POLISI TROSGLWYDDO STOC TAI: MATERION SY'N CODI

## Mater

1. Ceisio barn y Pwyllgor ar y materion sy'n codi o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn ar adolygiad y polisi trosglwyddo stoc tai.

## Argymhelliad

2. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y materion a nodir yn yr atodiad.

## Amseriad

3. Yng ngoleuni barn y Pwyllgor ar y materion sy'n codi, paratoir rhestr gychwynnol o argymhellion ar gyfer eu hystyried yn y cyfarfod nesaf.

## Cefndir

4. Fel rhan o'i adolygiad o'r polisi trosglwyddo stoc tai, mae'r Pwyllgor wedi cynnal ymgynghoriad ysgrifenedig, yn ogystal â sesiwn ymgynghori lafar. Y mae hefyd wedi ymweld â thri sefydliad trosglwyddo stoc yn Lloegr.

5. Mae cynlluniau ar y gweill am waith pellach ar yr adolygiad, gan gynnwys sesiynau cyfarwyddo gan Gyngor y Benthycwyr Morgeisiau, ac, os byddant yn cytuno, gan y Rhaglen Bartneriaeth Cyhoeddus-Preifat. Serch hynny, mae rhai materion penodol wedi codi o'r gwaith hyd yn hyn, a byddai o gymorth i geisio barn y Pwyllgor arnynt ar yr adeg hon.

6. Bydd y dull hwn o fynd ati yn galluogi'r Pwyllgor i gadw at amserlen yr adolygiad a nodwyd ym mhapur LGH-10-00 (p.5), ac a gymeradwyodd y Pwyllgor ym mis Hydref. Y cam mawr nesaf fydd ystyried yr argymhellion allweddol, sydd wedi ei amserlennu ar gyfer 24 Ionawr. Wrth gwrs, bydd yn bosibl diwygio a gwella'r argymhellion hyn yng ngoleuni gwaith pellach ar yr adolygiad, sydd eisoes wedi ei gynllunio, fel rhan o'r broses o baratoi adroddiad y Pwyllgor.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**